

Trefn ar gyfer Comisiynu Gweinidogaethau Lleyg

FFURF B

Fel arfer, gweinyddir gan yr esgob, yr archddiacon, arweinydd lleol y genhadaeth/y weinidogaeth, neu gan rywun arall sy'n cynrychioli'r esgobaeth.

Gellir cynnwys y litwrgi hwn yn yr Ewcharist neu Wasanaeth y Gair.

ADNEWYDDU ADDUNEDAU BEDYDD

Mae'r gynulleidfa'n sefyll.

Mae'r un sy'n gweinyddu yn annerch y gynulleidfa:

Yr Eglwys yw Corff Crist ar y ddaear ac fe'i gelwir, drwy fedydd, i ddwyn gogoniant i Dduw mewn addoliad a chenhadaeth. Gelwir ar bawb o bobl Dduw i dyfu i gyflawnder Crist ac i ddwyn ffrwyth i'r Deyrnas; ffrwyth ffydd a gobaith a chariad.

A ydych chi, aelodau o gorff Crist yma yn....., yn ailaddef yr ymrwymiad, a wnaed yn eich bedydd, i'n galwedigaeth gyffredin, Gristionogol?

Ydym.

Gan hynny, gofynnaf:

A ydych yn troi at Grist?

Yr wyf yn troi at Grist.

A ydych yn edifarhau o'ch pechodau?

Yr wyf yn edifarhau o'm pechodau.

A ydych yn ymwrthod â drygioni?

Yr wyf yn ymwrthod â drygioni.

Dywedodd Iesu, 'Fel y mae'r Tad wedi fy anfon i, yr wyf fi hefyd yn eich anfon chwi.'

A ydych yn ymrwmo i ddirnad galwad Duw, ac ufuddhau iddi, yn eich bywyd cyffredin yn aelodau o Eglwys Dduw yn y lle hwn?

Ydym.

Dywedodd Iesu, 'Myfi a'ch dewisodd chwi, a'ch penodi i fynd allan a dwyn ffrwyth, ffrwyth sy'n aros.'

A ydych chi'n ymrwmo i wasanaethu Duw yn eich byw a'ch bywyd oddi mewn i'ch cymuned leol?

Ydym.

Dywedodd Iesu, 'Rwy'n gweddïo ar iddynt oll fod yn un, ie, fel yr wyt ti, O Dad, ynof fi a minnau ynot ti.'

A ydych chi'n ymrwymo i gadw, â rhwymyn tangnefedd, yr undod y mae'r Ysbryd yn ei roi, yn eich geiriau ac yn eich gweithredoedd?

Ydym.

Bobl Dduw, derbyniwch o'r newydd yr awdurdod a roddwyd gan Grist i'w Eglwys: i bregethu'r newydd da i dlodion, i gyhoeddi rhyddhad i garcharorion ac adferiad golwg i ddeillion, i beri i'r gorthrymedig gerdded yn rhydd ac i gyhoeddi blwyddyn ffafr yr Arglwydd.

Gweddiwn

Arglwydd, boed inni fod yn fodd i wasgar dy dangnefedd.

Lle bo casineb, heuwn gariad;

Ile bo camwedd, bydded maddeuant;

Ile bo anghydfod, undod;

Ile bo amheuaeth, ffydd;

Ile bo anobaith, gobaith;

Ile bo tywyllwch, goleuni;

Ile bo tristwch, llawenydd;

er mwyn dy drugaredd a'th wirionedd. Amen.

I Dduw, sydd â'r gallu ganddo i wneud yn anhraethol well na dim y gallwn ni ei ddeisyfu na'i ddychmygu; iddo ef y bo'r gogoniant yn yr Eglwys ac yng Nghrist Iesu o genhedlaeth i genhedlaeth, byth bythoedd. **Amen.**

COMISIYNU GWEINIDOGAETHAU LLEYG

Mae'r rhai sydd i'w comisiynu yn dod ymlaen, ac fe'u cyflwynir gan gynrychiolydd o Gyngor Ardal y Weinidogaeth/y Genhadaeth, neu gan gynrychiolydd o'r Cyngor Plwyf Eglwysig, a ddywed:

Mae Cyngor Ardal y Weinidogaeth/ y Genhadaeth yn credu bod y rhai sy'n sefyll o'ch blaen wedi eu galw i weinidogaethu yn.....(*Rhestrir y gwahanol weinidogaethau*), yn aelodau o'n Tîm Gweinidogaethu (am gyfnod o.....). Felly, ar ran y Cyngor hwnnw, gofynnaf iddynt gael eu comisiynu i'r weinidogaeth hon.

Mae'r un sy'n gweinyddu yn annerch y gynulleidfa:

'Y mae amrywiaeth doniau, ond yr un Ysbryd sy'n eu rhoi; ac y mae amrywiaeth gweinidogaethau, ond yr un Arglwydd sy'n eu rhoi.' Y mae Duw wedi gosod, yn ei Eglwys, amrywiaeth o weinidogaethau.

Y mae'r rhai a alwyd i weinidogaethau â chomisiwn yn ymuno â phawb o bobl Dduw i garu ei gilydd, i addoli, ac i rannu'r newyddion da am Iesu Grist. Ni alwyd hwy i weithredu yn lle eraill

ond, yn hytrach, i gynnal pobl Dduw yn eu tystiolaeth a'u gweinidogaeth hwy, a chyfranogi o'r un Ysbryd Crist sy'n cyfoethogi'r Corff cyfan.

A ydych chi, aelodau'r gynulleidfa, yn credu bod Duw wedi galw'r rhai sydd wedi ymgynnull o'ch blaen, i arwain y weinidogaeth yr ydych i gyd â chyfran ynddi.

Ydym.

Mae'r un sy'n gweinyddu yn annerch y rhai sy'n cael eu comisiynu.

Os yw'r Esgob yn gweinyddu, dywed:

Yr wyf yn ymddiried i'ch gofal y weinidogaeth hon, a'ch comisiynu chwi iddi, gan eich gwahodd i ymrwymo i'r dasg y'ch galwyd chwi iddi, oddi mewn i'r gynulleidfa hon.

Neu

Os nad yr esgob sy'n gweinyddu, dywedir:

Ar awdurdod yr esgob yr wyf yn ymddiried i'ch gofal y weinidogaeth hon, a'ch comisiynu chwi iddi, gan eich gwahodd i ymrwymo i'r dasg y'ch galwyd chwi iddi, oddi mewn i'r gynulleidfa hon.

Mewn undod a chymundeb â phawb o bobl Dduw

yr ydym yn addo, gerbron Duw,

gyflawni'n ffyddlon y dyletswyddau a ymddiriedwyd i ni,

gan gydweithio

a thyfu mewn ffydd,

fel y byddo Crist yn cael ei adnabod.

*Gellir cyflwyno tystysgrif gomisiynu a/neu arwydd addas o weinidogaeth.
Dywed yr un sy'n gweinyddu:*

Boed i Grist, na ddaeth i'n plith i gael ei wasanaethu ond i wasanaethu, fod yn ysbrydoliaeth fywiol i chwi ym mhob un o'ch geiriau a'ch gweithredoedd.

Amen.

Gellir offrymu rhagor o weddïau fan hyn.

Y TANGNEFEDD

Molwch Dduw, creawdwr nefoedd a daear.

Sy'n cadw'n ffyddlon ei addunedau hyd byth.

Corff Crist ydym.

Mewn un Ysbryd y cawsom i gyd ein bedyddio i un corff.

Gadewch inni, felly, geisio'r pethau sy'n arwain i heddwch:

Ac yn adeiladu perthynas gadarn â'n gilydd.

Tangnefedd yr Arglwydd a fo gyda chwi bob amser

A hefyd gyda thi.

Rhennir y Tangnefedd